**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 6 Mawrth 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIAD O FUDDIANNAU | Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na niweidiol. |
| **3** | MATERION BRYS YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Ragfyr 5, 2012 ac Ionawr 24, 2013 a'u cadarnhau'n gofnod cywir.* |
| **5** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – YMGEISYDD RHIF 045909 | ***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais am drwydded gyrrwr cerbyd hacni a cherbyd hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 045909.* |
| **6** | CAIS AM ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW | ***PENDERFYNWYD*** – <br><br>*(a) caniatáu cais am adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw ar gyfer eiddo yn 43 - 47 Queen Street, Y Rhyl â'r opsiwn o dalu'r ffi adnewyddu o £2600 mewn rhandaliadau* <br><br>*(b) gofyn i swyddogion adolygu'r ffioedd presennol ar gyfer trwyddedu sefydliad rhyw gan ystyried yr achos diweddar 'R (Hemming ac Eraill) v Cyngor Dinas* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *Westminster' ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar hynny os bydd angen.* |
| **7** | ADOLYGIAD TRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT – GYRRWR RHIF 043120 | ***PENDERFYNWYD*** *rhoi rhybudd difrifol i Yrrwr Rhif 043120 ynglŷn â'i ymddygiad a'i ymddygiad yn y dyfodol.* |
| **8** | DIWEDDARIAD AR ADOLYGIAD FFIOEDD A THALIADAU TRWYDDEDU AR GYFER 2013/14 | ***PENDERFYNWYD*** *cadw'r strwythur ffioedd presennol ar gyfer Ffioedd a Thaliadau Trwyddedu (fel y'u nodir yn yr atodiad i'r adroddiad hwn) ar gyfer 2013/14 hyd nes ceir canlyniad yr adolygiad llawn.* |
| **9** | ADOLYGIAD O AMODAU'R FARCHNAD AR GYFER Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r Amodau Marchnad diwygiedig arfaethedig ynghyd â'r strwythur ffioedd (fel y'u nodir yn Atodiad 1 a 2 i'r adroddiad yn eu tro).* |
| **10** | RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2013/14 | ***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen waith y Pwyllgor Trwyddedu fel y'i nodir yn yr adroddiad.* |